

Cymorth i'r Teulu



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

FFÔN: 116 000 TESTUN: 116 000
EBOST:116000@missingpeople.org.uk

Mae **Missing People** yn darparu cyngor a chymorth am ddim 24/7, i deuluoedd sydd â pherthynas ar goll. Byddwn yno, ddydd a nos ar eu cyfer, yn ôl y gofyn. Dylai'r Heddlu ddweud wrth bob teulu sut i gael gafael arnom i gael y cymorth a restrir isod.

Mae'r gwahanol fathau o gymorth y gallwn ei roi i deuluoedd pan fydd rhywun yn diflannu i'w gweld isod. Ein gobaith yw bod teulu sydd â pherthynas ar goll yn cael gwybod sut i gysylltu â ni wrth iddynt roi gwybod bod rhywun ar goll.

Llinell Gymorth

Mae Llinell Gymorth Missing People am ddim ac yn gyfrinachol ac ar gael 24 awr y dydd i roi cymorth emosiynol ac ymarferol, neu help i weithio â'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r cyfryngau.

Canllawiau Ysgrifenedig

Mae taflenni cyngor gan Missing People sy'n rhoi cymorth ar amrywiaeth eang o faterion sydd o bwys i deuluoedd sydd â pherthynas ar goll, plentyn ar goll, ac oedolion a phobl broffesiynol sydd ar goll. Gall y materion hyn amrywio o weithio â'r heddlu i ddelio â diddordeb y cyfryngau neu reoli arian y person sydd ar goll.

Cwmsela dros y Ffôn

Yn ogystal â'n gwasanaeth llinell gymorth a gweithwyr cymorth i'r teulu, mae Missing People hefyd yn cynnig cwmsela am ddim dros y ffôn oddi wrth gwmselwyr arbenigol sydd wedi eu hyfforddi i ddeall anghenion unigryw teuluoedd a ffrindiau pobl sydd ar goll.

Helpu â chyhoeddusrwydd y Person sydd ar Goll

Gall Missing People gynhyrchu apêl ar y we, argraffu posteri a'u lledaenu'n briodol i'r ardal gywir a defnyddio cyfryngau cymdeithasol a hysbysfyrddau digidol i ehangu'r chwiliad. Ar ôl i'r heddlu gadarnhau bod ein cyhoeddusrwydd yn briodol gallwn roi cyngor am y mathau mwyaf addas o apeliadau.

Gwasanaeth Olrhain Cyswllt Coll

Os yw perthynas wedi colli cyswllt, neu wahanu'n raddol o fewn y 15 mlynedd diwethaf mae'n bosibl y bydd Missing People yn gallu eu helpu i ddod i gysylltiad â'r person sydd ar goll. Byddwn yn ceisio olrhain cyfeiriad y person sydd ar goll. Os byddwn yn dod o hyd iddo, byddwn, yn gyfrinachol, yn rhoi'r dewis iddo ailgysylltu â'i berthynas os yw am wneud hynny.

Fforwm Ar-lein

I rai pobl, mae rhannu eu profiadau â theluedd eraill sydd â pherthynas sydd ar goll yn gallu bod o gymorth iddynt. Mae'n Fforwm Cysylltu Teuluoedd yn galluogi pobl i rannu, derbyn cymorth a dod i adnabod ei gilydd ar-lein. Gall theluedd ddod o hyd i'r fforwm a chysylltu yma www.missingpeople.org.uk/how-we-can-help/families-and-friends/family-connect-forum

Digwyddiadau

Mae Missing People yn rhedeg digwyddiadau i aelodau o'r teulu gan gynnwys Gwasanaeth Carolau Nadolig blynyddol, Cynhadledd Teuluoedd blynyddol a digwyddiadau rhanbarthol sy'n dod â theluedd at ei gilydd, helpu i gofio am anwyliaid a rhoi cyfle i deuluoedd ddysgu am y mater dan sylw neu ddysgu am ffyrdd o ymdopi.

Dydw i dal ddim yn siŵr, mae angen rhagor o wybodaeth arna' i...

Ewch i'n gwefan www.missingpeople.org.uk/police neu mae croeso i chi ffonio'r tîm ar unrhyw adeg ar 116 000 a byddant yn esbonio ein gwasanaethau i deuluoedd i chi.